**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 19 Mawrth 2019, 18.00-19.30

Lleoliad: Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel.

Yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC - Cadeirydd (DL), Tristan Humphreys - Ysgrifennydd/ Colieac UK (TH), Alison Jones - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (AJ), Claire Constantinou - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CC), Dr Geraint Preest - Canolfan Feddygol Pencoed (GPr), Ian Severn - Grŵp Lleol Caerdydd (IS), Jenny Pugh-Jones - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (JPJ), *Norma McGough - Celiac UK (NMG), Rhun ap Iorwerth AC (RAI) * Ruth Passmore - Coeliac UK (RP), Sian Evans - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (SE) * *Ymuno ar Skype*

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau am absenoldeb<br><br>Henry Wilkins, Simon Scourfield, Graham Philips, Heather Stevens, Jill Swift, Dr Huw Jenkins, Llyr Gruffydd AC. |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br><br>a. Diwygio a chymeradwyo’r cofnodion<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb eu diwygio.<br><br>b. Materion sy'n codi<br><br>Bydd Tristan Humphreys (TH) yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynghrair Gofal mewn Ysgolion yn y cyfarfod nesaf. Roedd yr holl faterion a godwyd wedi'u cynnwys yn yr agenda. |
| 3 | Cynllun peilot presgripsiynau Hywel Dda<br><br>a. Adroddiad gan Alison Jones (Deietegydd Cymorth Rhagnodi Arweiniol Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)<br><br>Rhoddodd Alison Jones drosolwg o gynllun Hywel Dda ar gyfer y rhai sy’n cael bwydydd heb glwten ar bresgripsiwn. Cynhaliwyd y Cynllun Peilot rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2018. Yn lle rhoi presgripiynau rheolaidd am fwydydd heb glwten, rhoddwyd cerdyn rhagdaledig i gyfranogwyr ei ddefnyddio wrth brynu’r bwydydd hyn. Llwythwyd y cerdyn bob chwarter ag arian i dalu am y gwahaniaeth rhwng cost bwyd heb glwten a bwyd sy’n cynnwys glwten.<br><br>Cynhaliwyd gwerthusiad o’r gwasanaeth ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018, a hynny drwy gyfrwng holiadur. Cysylltwyd â 189 o bobl a chytunodd 120 i gymryd rhan yn y cynllun peilot. O'r 120, dewisodd 104 barhau â’r cynllun a phenderfynodd 17 ei bod yn well ganddynt y system bresgripsiynau.<br><br>*Demograffeg y cyfranogwyr*<br><br>Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr (71%) yn fenywod ac roedd y mwyafrif helaeth (88%) wedi cael diagnosis ers dros 3 blynedd. Roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai o anheddau trefol a gwledig ac roedd y cynllun peilot yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | ardaloedd o amddifadedd - Doc Penfro, Aberdaugleddau, Caerfyrddin a de Ceredigion.<br><br>*Defnydd*<br><br>Defnyddiodd y rhan fwyaf y cerdyn mewn archfarchnadoedd (Tesco, Morrison, M&S a Co-op) i brynu bara, grawnfwyd, mathau eraill o fara, rholiau a chynhyrchion sawrus, a oedd yn cyfrif am 72% o'r bwydydd a brynwyd.<br><br>Ychydig iawn o broblemau fu gyda'r cerdyn, gyda dros 2,000 o drafodion llwyddiannus. Nid oedd unrhyw broblemau yn gwirio'r balansau ac roedd y cwmni cardiau a'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.<br><br>*Lefel y cymhorthdal:*<br><br>Derbyniodd y cyfranogwyr £1 am bob uned ddi-glwten roedd hawl iddynt ei gael ar bresgripsiwn (e.e. Gwryw 19 - 59 oed, unedau y caiff eu hawlio bob mis = 18. Swm a lwythwyd ar y cerdyn bob mis = £18 → £54 / chwarter).<br><br>Roedd yr adborth yn awgrymu nad oedd rhai cyfranogwyr yn deall mai cymhorthdal oedd yr arian yn hytrach na swm a oedd yn cyfateb i gost lawn y nwyddau.<br><br>*Manteision y cerdyn:*<br><br>Ymhlith y cyfranogwyr a holwyd:<br><br>• Roedd 75% o'r sylwadau yn gadarnhaol, a thanlinellwyd bod y cerdyn yn hawdd ei ddefnyddio a bod digon o ddewis.<br>• Dywedodd 85% fod yn well ganddynt ddefnyddio'r cerdyn na'r system bresennol.<br><br>Roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd dim, neu prin ddim, manteision ynghlwm wrth system y presgripsiynau rheolaidd o'i chymharu â defnyddio'r cerdyn, er bod rhai wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd modd prynu rhai brandiau poblogaidd roeddent yn arfer eu cael ar bresgripsiwn. Yn gyffredinol, dywedodd y cyfranogwyr fod ansawdd y cynhyrchion o leiaf cystal, os nad gwell, na'r bwydydd a oedd ar gael ar bresgripsiwn. Dywedodd rhai nad oedd gan siopau lleol gyflenwad mawr er nad oedd hyn yn broblem i'r rhan fwyaf.<br><br>*Ystyriaethau;*<br><br>*Siopa ar-lein:*<br><br>Roedd rhai problemau'n codi wrth siopa bwyd ar-lein gan nad oedd modd defnyddio dau gerdyn i dalu ac roedd angen gwario isafswm penodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ganran fach o gyfranogwyr a oedd yn siopa ar-lein. Roedd hon yn broblem arbennig i famau â phlant bach.<br><br>*Cynhyrchion presgripsiwn yn unig;*<br><br>Roedd yn anodd prynu rhai cynhyrchion presgripsiwn mewn lleoliadau manwerthu ac roedd hyn yn rhwystredig i rai o'r cyfranogwyr. Cafwyd rhywfaint o adborth negyddol hefyd pan ddatgelwyd cost cynhyrchion presgripsiwn arbenigol. Dywedodd Rhun Ap Iorwerth (RAI) ei fod yn pryderu ynghylch gallu unigolion i fynnu cynhyrchion penodol os yw'r costau'n fwy.<br><br>*Gwerthusiad o'r rhai a ddewisodd <u>beidio</u> â chymryd rhan;* |

| | |
|---|---|
| | Dewisodd 68 o bobl beidio â chymryd rhan yn y cynllun peilot ac ymatebodd 30 ohonynt. Roedd y rhan fwyaf wedi cael diagnosis ers dros 10 mlynedd ac roeddent dros 61 oed.<br><br>Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod cael presgripsiwn yn haws, roedd yn well ganddynt y cynhyrchion ac nid oeddent am orfod cadw derbynebau.<br><br>Asesiadau ariannol:<br><br>Mae asesiadau ariannol yn awgrymu y gellid rhoi'r cerdyn i bob un o'r 1050 o gleifion sydd â hawl i gael cymorth a byddai'n dal yn £3,005 yn rhatach bob blwyddyn na phresgripsiynau ar gyfer 750 o bobl. Mae costau cyfle'n awgrymu y gellid sicrhau arbedion ychwanegol.<br><br>*Casgliadau;*<br><br>Mae yna awydd i newid ac i'r rhai a roddodd gynnig arni, roedd y mwyafrif yn dymuno dal ati. Fe'i defnyddiwyd yn bennaf at y diben a fwriadwyd, a thynnwyd sylw at y ffaith mai un o fanteision y cynllun oedd y dewis roedd yn ei gynnig.<br><br>Ychydig iawn o broblemau a gofnodwyd o ran defnyddio'r cerdyn - fe'i defnyddiwyd yn bennaf at  y diben a fwriadwyd, sef i brynu cynhyrchion a oedd yn cyfateb i'r hyn a oedd ar gael ar bresgripsiynau rheolaidd.<br><br>Roedd rhai'n pryderu nad oedd maint y cymhorthdal yn gywir ac mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei ystyried ymhellach. Nid yw'n ymddangos ei bod yn anoddach i bobl cefn gwlad ddefnyddio'r cerdyn ond bydd angen holi am hyn ymhellach os caiff y cynllun ei gyflwyno'n ehangach yn y dyfodol. Roedd yn rhatach i'w redeg a'i weinyddu na'r presgripsiynau presennol.<br><br>a. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Roedd y trafodaethau'n ymwneud â monitro'r cynllun peilot ac a oes angen parhau â'r system bresgripsiynau bresennol ar gyfer rhai grwpiau agored i niwed. Trafodwyd maint y cymhorthdal hefyd a chytunwyd bod angen archwilio hyn ymhellach yn y dyfodol.<br><br>Y camau nesaf<br><br>Bydd AJ yn cyflwyno ei hadroddiad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a fydd yn penderfynu ar y camau nesaf. Cytunodd y grŵp i gynnal briff gwylio a bydd yn edrych ar y canlyniadau cyn penderfynu a ddylid cyflwyno'r cynllun yn ehangach yn y dyfodol. Dywedodd RAI fod gan y grŵp rai pryderon o hyd ac y byddai angen i'r Cynulliad ymgymryd â gwaith craffu ac ymgynghori trylwyr cyn cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol. Caiff rhagor o wybodaeth ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cytunodd y aelodau'r grŵp bod angen canmol AJ am ei gwaith caled ac roeddent yn edrych ymlaen at glywed mwy yn y cyfarfod nesaf.<br><br>CAM I'W GYMRYD: AJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf |
| 4 | Newidiadau i reoliadau presgripsiynau yn Lloegr a'r effeithiau posibl yng Nghymru.<br><br>b. Y sefyllfa ddiweddaraf yn Lloegr (NMG)<br>c. Y wybodaeth ddiweddaraf am weinyddu rhestr ACBS yn yr Alban (TH) |

| | |
|---|---|
| | Rhoddodd TH y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Arweinydd yn yr Alban (Coeliac UK); Nid yw'r Alban yn defnyddio'r rhestr ACBS bellach. Yn hytrach, mae'r holl gynhyrchion bwyd di-glwten sydd ar gael ar bresgripsiwn wedi eu rhestru yn Nhariff Cyffuriau'r Alban.<br><br>Er mwyn ychwanegu unrhyw gynnyrch newydd, bydd yn rhaid i wneuthurwr wneud cais i ychwanegu'r cynnyrch yn Nhariff Cyffuriau'r Alban. Fodd bynnag, mae angen sefydlu system newydd yn gyntaf er mwyn medru asesu cynhyrchion a chadarnhau eu bod yn addas i'w rhoi ar bresgripsiynau'r GIG, gan mai ACBC oedd yn gwneud hynny cynt. Maent yn gobeithio cydweithio efallai â'n swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth Cymru sydd yn yr un sefyllfa. Eglurodd AJ fod Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio rhestr Coeliac UK, ond bydd angen rhoi system newydd ar waith yn y dyfodol.<br><br>ch. Y wybodaeth ddiweddaraf am weinyddu rhestr ACBS yng Nghymru/cynlluniau yn y dyfodol (AJ)<br><br>Awgrymodd AJ y gellid sefydlu ACBS yng Nghymru. Cynigiodd DL y dylid anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd a Phrif Fferyllydd Cymru.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i gydweithio â DL ynghylch anfon llythyr at y Gweinidog.<br>CAM I'W GYMRYD : TH i ofyn am gyfarfod â'r Prif Fferyllydd, Andrew Evans |
| 5 | Llythyr gan BSNA a phryderon o ran GDPR<br><br>a. Trafodaeth<br><br>Mae nifer o aelodau wedi cael llythyrau gan BSNA ynglŷn â chynllun presgripsiynau Hywel Dda. Nid yw'n glir sut y cawsant wybod am gyfeiriadau e-bost unigolion a mynegwyd pryderon o ran GDPR. Teimlai'r grŵp nad oedd hyn yn ffordd briodol o ymgysylltu â'r grŵp a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd, felly, yn cysylltu â BSNA.<br><br>CAM I'W GYMRYD: DL i anfon llythyr at BSNA |
| 6 | Unrhyw fater arall<br><br>Dim. |
| 7 | Dyddiad y cyfarfod nesaf:<br>6.30pm 11 Mehefin |

| Camau i'w cymryd | Aelod |
|---|---|
| Cydweithio ynghylch: anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd | DL a TH |
| Gofyn am gyfarfod gyda'r Prif Fferyllydd, Andrew Evans | TH |
| Anfon llythyr at BSNA | DL |